




Cysylltu'r Gwledydd

Diweddariad Haf 2023

Adroddiad

Cyhoeddwyd 7 Medi 2023



Adran

Trosolwg	3
Dangosfyrddau.....	9

Trosolwg

Dyma'r ail ddiweddariad interim i'n hadroddiad blynyddol Cysylltu'r Gwledydd a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2022¹. Mae wedi'i seilio ar y ddarpariaeth symudol ac argaeledd band eang sefydlog ar draws y DU fel yr oedd y sefyllfa ym mis Ebrill a mis Mai 2023.

Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

- **Mae nifer y cartrefi a all gael band eang sy'n gallu delio â gigabits** wedi cynyddu i bron 22.4 miliwn o gartrefi (75% o holl gartrefi'r DU), i fyny o 21.9 miliwn (73%) ers ein diweddariad diwethaf.
- **Mae darpariaeth ffeibr llawn, ar gyfer y DU gyfan, wedi mynd dros y trothwy hanner ffordd am y tro cyntaf i fyny i 52% o 48%**, sef cynnydd o 4 pwynt canran yn y pedwar mis rhwng mis Ionawr 2023 a mis Mai 2023.
- **Mae'r ddarpariaeth band eang cyflym iawn ar draws y DU** ar y cyfan yn dal i fod ar 97%, ond gyda chynnydd o un pwynt canran yng Ngogledd Iwerddon, i 97%.
- **Mae nifer yr adeiladau nad ydynt yn gallu cael mynediad at fand eang digonol**, wrth ystyried rhwydweithiau llinell sefydlog a di-wifr sefydlog, wedi gostwng o 68,000 i 62,000 o adeiladau ers ein hadroddiad Gwanwyn 2023².
- **Mae darpariaeth symudol yn dal yn sefydlog** ar gyfer 4G, a rhagwelir y bydd gan oddeutu 93% o ehangdir y DU ddarpariaeth 4G awyr agored dda gan o leiaf un gweithredwr, ac mae'r ardal hon yn cynnwys bron yr holl adeiladau yn y DU.
- **Mae darpariaeth 5G yn parhau i symud ymlaen yn raddol** gydag 85% o adeiladau'n gallu cael signal 5G yn yr awyr agored, gan o leiaf un gweithredwr rhwydwaith symudol (adroddir y ffigurau lefelau uchel o hyder).
- **Mae'r broses o ddiffodd y rhwydwaith 3G wedi dechrau** ac yn ddiweddar rydym wedi cynhyrchu data penodol yn y [ffeil "mannau di-gyswllt" 3G](#)

Fel gyda diweddariadau blaenorol, rydym wedi cyhoeddi [adroddiad rhyngweithiol](#) sy'n cynnwys y data diweddaraf a data hanesyddol.

Rydym hefyd wedi defnyddio'r data yn yr adroddiad hwn i ddiweddarau ein [gwiriwr darpariaeth band eang a symudol](#).

¹ <https://www.ofcom.org.uk/cymru/research-and-data/multi-sector-research/infrastructure-research/connected-nations-2022>

² <https://www.ofcom.org.uk/research-and-data/multi-sector-research/infrastructure-research/spring-2023>

Y prif ganfyddiadau – Band eang sefydlog

Band eang sy'n gallu delio â gigabits: mae argaeledd band eang sy'n gallu darparu cyflymderau gigabit³ i ddefnyddwyr yn parhau i wella'n gyflym, gyda bron i 22.4 miliwn o gartrefi yn y DU⁴ (75%) nawr yn gallu cael mynediad at y gwasanaethau cyflymach hyn, i fyny o 21.9 miliwn (73%) a chynnydd o 1.6 pwynt canran ein diweddariad Gwanwyn 2023. Mae hyn wedi cael ei sbarduno gan y ffaith bod band eang ffeibr llawn yn parhau i gael ei gyflwyno.

Darparu ffeibr llawn: Mae dros hanner cartrefi'r DU (15.4 miliwn neu 52%) bellach yn gallu cael mynediad at wasanaethau ffeibr llawn, sy'n gynydd o 15 pwynt canran mewn blwyddyn a 4 pwynt canran ers ein diweddariad Gwanwyn 2023. Mae hyn yn cael ei yrru'n bennaf drwy ddarpariaeth gan y gweithredwyr seilwaith ffeibr mwy, ond gyda chefnogaeth nifer o ddarparwyr llai ledled y DU sy'n gwasanaethu cymunedau a rhanbarthau unigol. Mae rhai o'r darpariaethau hyn yn elwa o amrywiaeth o gynlluniau cyllido'r sector cyhoeddus a amlinellir gennym isod.

Band eang cyflym iawn (cyflymder lawrlwytho o o leiaf 30 Mbit yr eiliad): Mae cyflwyno band eang cyflym iawn ledled y DU yn parhau i dyfu er ei fod yn arafach (mae'r ddarpariaeth yn dal ar 97% o gartrefi'r DU). Efallai bod hyn oherwydd yr anhawster ychwanegol o ran cyrraedd y 3% olaf o eiddo, er y gallai cynlluniau sy'n derbyn arian cyhoeddus yn fwy diweddar wella hyn.

Band eang digonol (cyflymder lawrlwytho o o leiaf 10 Mbit yr eiliad ac uwchlwytho o 1 Mbit yr eiliad): mae mwyafrif helaeth yr holl eiddo yn y DU yn gallu cael mynediad at fand eang teilwng. Mae nifer yr eiddo (preswyl a masnachol) nad ydynt yn gallu cael gwasanaeth band eang digonol drwy linell sefydlog oddeutu 428,000 (1.3% o adeiladau), ar ôl gostwng o 433,000 ers ein hadroddiad Gwanwyn 2023⁵.

Mae gwasanaethau band eang hefyd ar gael drwy rwydweithiau Mynediad Di-wifr Sefydlog (FWA), a ddarperir drwy rwydweithiau symudol neu drwy Ddarparwyr Gwasanaeth Rhynggrwyd Di-wifr (WISPs). O gael eu rheoli'n dda, gall rhwydweithiau Mynediad Di-wifr Sefydlog ddarparu gwasanaeth band eang digonol, a gellir eu defnyddio fel technoleg rhwydwaith amgen lle nad oes gan ddefnyddwyr fynediad at gysylltiad band eang teilwng dros rwydwaith sefydlog. Rydym yn parhau i gasglu data gan Ddarparwyr Gwasanaeth Rhynggrwyd Di-wifr ac yn seiliedig ar y ddarpariaeth a adroddir gan y darparwyr hyn, mae canran yr adeiladau sy'n gallu cael gwasanaeth band eang digonol gan Ddarparwyr Gwasanaeth Rhynggrwyd Di-wifr wedi cynyddu rhywfaint i 8%. Mae darpariaeth Mynediad Di-wifr Sefydlog gan rwydweithiau symudol sy'n gallu darparu band eang digonol yn dal i fod ar gael i 95% o adeiladau.

Gan ystyried yr amcangyfrifon darpariaeth a roddwyd gan ddarparwyr Mynediad Di-wifr Sefydlog, rydym yn amcangyfrif ar hyn o bryd y gallai fod oddeutu 62,000 o adeiladau o hyd nad oes ganddynt fynediad at wasanaeth band eang digonol o rwydwaith sefydlog nac o rwydwaith Mynediad Di-wifr Sefydlog. Mae hyn wedi gostwng o'n hamcangyfrif o 68,000 yn ein hadroddiad Gwanwyn 2023.

O'r rhain, nid oes disgwyl i ychydig dros 50,000 o adeiladau fod yn rhan o'r gwaith o gyflwyno cynlluniau a ariennir gan arian cyhoeddus yn ystod y deuddeg mis nesaf, i lawr o 54,000 yn ein hadroddiad Gwanwyn 2023. Efallai y bydd yr adeiladau hyn yn gymwys ar gyfer y cynnyrch

³ Mae rhwydweithiau sy'n gallu delio â gigabits yn cynnwys rhwydweithiau ffeibr llawn yn ogystal ag unrhyw rwydwaith sy'n gallu cynnig o leiaf 1 Gbit yr eiliad o gyflymder lawrlwytho (fel y fersiwn ddiweddaraf o dechnoleg rhwydwaith cebl Virgin Media O2 – DOCSIS 3.1).

⁴ Noder ein bod yn adrodd ar eiddo preswyl (cartrefi) o ran darpariaeth ffeibr llawn, sy'n gallu delio â gigabits a darpariaeth gyflym iawn, ond yn adrodd ar eiddo masnachol a phreswyl o ran band eang 'digonol'.

⁵ [Diweddariad Cysylltu'r Gwledydd – Gwanwyn 2023](#)

Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (USO) band eang yn amodol ar ragor o archwiliadau a chadarnhad gan y darparwyr gwasanaeth cyffredinol (BT a KCOM).

Mae'r ffigurau uchod yn dangos argaeledd gwasanaethau band eang ledled y DU, ac mae ffigurau allweddol wedi'u nodi yn y dangosfyrdau isod; byddwn yn adrodd yn fanylach ar y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau band eang yn ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd blynyddol ar gyfer 2023.

Y prif ganfyddiadau - Symudol

Rydym yn mesur darpariaeth symudol mewn ffordd sy'n adlewyrchu profiad tebygol pobl wrth ddefnyddio eu ffonau symudol.⁶

Ni fu cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth ers ein diweddariad diwethaf, ond mae'r diwydiant yn parhau i ddatblygu ei ôl troed darpariaeth.

4G: Ni welwyd newidiadau sylweddol yn narpariaeth y rhwydweithiau symudol 4G ar draws y DU dros y cyfnodau adrodd diwethaf. Rhagwelir bod gan oddeutu 93% o ehangdir y DU ddarpariaeth 4G dda yn yr awyr agored gan o leiaf un gweithredwr, ac mae'r ardal hon yn cynnwys bron yr holl adeiladau yn y DU. Disgwylir i hyn godi i 95% erbyn diwedd 2025 o ganlyniad i'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir⁷. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Cymru a'r Alban yn sylweddol is ar hyn o bryd. Dylid nodi bod gweithredwyr rhwydweithiau symudol (MNO) unigol wedi ymrwymo i sicrhau darpariaeth rhwng 85% ac 88% yng Nghymru erbyn 2027⁸ dan fuddsoddiad Rhwydwaith Gwledig a Rennir Llywodraeth y DU, a rhwng 82% ac 85% yn yr Alban o gyfuniad o hyn a rhaglen mewnlenwi 4G yr Alban. Ers ein diweddariad diwethaf, mae'r ddarpariaeth 4G ar gyfer darpariaeth ar ffyrdd mewn cerbyd wedi cynyddu yn yr Alban i 67-81% ar draws yr ystod o weithredwyr rhwydwaith symudol.

Mannau di-gyswllt 4G: Yn y DU, mae manau di-gyswllt daearyddol ac ar ffyrdd (hynny yw, ardaloedd lle nad oes gwasanaethau 4G da ar gael gan unrhyw weithredwr symudol). Mae manau di-gyswllt daearyddol wedi gostwng rhywfaint ers ein hadroddiad Gwanwyn 2023, o 8% i 7%. Mae'r ddarpariaeth ar ffyrdd yn parhau yr un fath i raddau helaeth, gydag amcangyfrif mai dim ond 4% o'r holl ffyrdd sy'n fannau di-gyswllt mewn cerbyd. Mae hyn yn amrywio'n sylweddol ar draws gwledydd unigol, yn enwedig yn yr Alban a hefyd yng Nghymru.

Darpariaeth galwadau a negeseuon testun: Ni fu fawr o newid at ei gilydd yn y ddarpariaeth a ragwelwyd dros y cyfnodau adrodd blaenorol. Mae ystod y ddarpariaeth a ragwelir gan weithredwyr rhwydweithiau symudol yn amrywio o 85-93% o ehangdir y DU, yn dibynnu ar y gweithredwr. Ar ben hynny, rhagwelir y bydd gan 99% o holl adeiladau'r DU ddarpariaeth ar gyfer galwadau llais yn yr awyr agored gan bob gweithredwr rhwydwaith symudol.

Mannau di-gyswllt galwadau/negeseuon testun: Yn yr un modd, nid yw'r ardaloedd lle nad yw pobl yn gallu gwneud galwad neu anfon neges destun gan unrhyw weithredwr (mannau di-gyswllt) wedi newid, gydag amcangyfrif bod oddeutu 4% o ddaearyddiaeth y DU yn fannau di-gyswllt. Amcangyfrifir bod oddeutu 2% o ffyrdd y DU yn fannau di-gyswllt ar gyfer galwadau a negeseuon testun sy'n cael eu gwneud neu eu derbyn mewn cerbyd. Fel sy'n wir am 4G, mae amrywiadau amlwg rhwng y gwledydd unigol; er enghraifft, mae'r manau di-gyswllt daearyddol ar draws yr Alban yn parhau'n uwch nag yng ngweddill y DU, sef oddeutu 10%.

5G: Rydym yn parhau i adrodd ar ddarpariaeth 5G (adeiladau awyr agored) gan 'Pob Gweithredwr Rhwydwaith Symudol' a gan 'O leiaf un Gweithredwr Rhwydwaith Symudol', gyda lefelau hyder y

⁶ Mae diffiniadau manwl ar gael yn [Cysylltu'r Gwledydd 2022: Methodoleg \(ofcom.org.uk\)](https://www.ofcom.gov.uk/consult/condocs/cymru/cymru2022/methodology/)

⁷ [SN07069.pdf \(parliament.uk\)](https://www.parliament.uk/publications/2023/07/sno7069/)

⁸ Mae hwn wedi cael ei ddiwygio ar gyfer 2026.

ddarpariaeth yn amrywio o uchel i uchel iawn. Mae'r ddarpariaeth gan 'O leiaf un Gweithredwr Rhwydwaith Symudol' bellach yn amrywio o 76% (lefel hyder uchel iawn) i 85% (lefel hyder uchel) o adeiladau yn yr awyr agored, i fyny o 73% a 82% yn y drefn honno pan adroddwyd yn ein diweddariad Gwanwyn 2023.⁹

Cynlluniau ar draws y DU a'r Gwledydd sy'n cefnogi darparu rhwydweithiau band eang a symudol

Mae gan Lywodraeth y DU uchelgais i gael band eang gigabit i o leiaf 85% o adeiladau erbyn 2025 a dros 99% erbyn 2030. Er bod disgwyl i fwyafrif gweithredwyr telathrebu y DU ddarparu band eang gigabit ar sail fasnachol, mae cynlluniau cyhoeddus yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gysylltu adeiladau mwy anghysbell a gwledig. Mae Llywodraeth y DU yn buddsoddi £5 biliwn i sicrhau darpariaeth ar gyfer adeiladau anodd eu cyrraedd¹⁰. Ym mis Mehefin 2023, roedd Llywodraeth y DU wedi lansio 30 o brosesau caffael gwerth £1.4 biliwn, gyda'r nod o gynnwys 895,000 o adeiladau.¹¹

Mae targedau Llywodraeth y DU ar gyfer gwasanaethau symudol yn cynnwys targed o 95% o ddarpariaeth ddaearyddol yn y DU ar gyfer 4G, ac ym mis Ebrill 2023 cyhoeddodd y Strategaeth Seilwaith Di-wifr¹² lle cyhoeddodd uchelgais newydd i'r DU gael darpariaeth 5G unigol ar draws y wlad i bob ardal boblog erbyn 2030.

Mae **Cynllun Talebau Band Eang Gigabit** Llywodraeth y DU yn rhoi talebau gwerth hyd at £4,500 i gwsmeriaid cymwys i gyfrannu tuag at gostau gosod band eang sy'n gallu delio â gigabits. Ym mis Mehefin 2023, roedd 89,000 o dalebau wedi cael eu defnyddio i gysylltu adeiladau â band eang sy'n gallu delio â gigabits, ac roedd 28,000 o dalebau eraill wedi cael eu cyhoeddi.¹³

Lloegr: Ers ein cyhoeddiad Cysylltu'r Gwledydd diwethaf ym mis Mai 2023, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd tri chontract arall yn cael eu dyfarnu o dan Brosiect Gigabit yn Norfolk, Suffolk a Hampshire a fydd yn darparu band eang sy'n gallu delio â gigabits i 218,000 yn fwy o gartrefi gwledig.¹⁴

Yr Alban: Nod Rhaglen Reaching 100% (R100) Llywodraeth yr Alban¹⁵ – gyda £641m o fuddsoddiad wedi'i ymrwymo hyd yma, gan gynnwys £49.5m gan Lywodraeth y DU – yw galluogi cysylltedd band eang cyflym iawn (30Mbps) i bob cartref a busnes yn yr Alban.

Mae'r rhaglen wedi'i rhannu'n dair elfen o weithgarwch. Yr elfen gyntaf yw contractau R100, sy'n cael eu darparu gan Openreach, ar draws tair ardal ddaearyddol (Gogledd, Canol a De). Mae tua 99% o'r cysylltiadau sy'n cael eu darparu drwy'r contractau hyn yn rhai ffeibr llawn, sy'n gallu darparu cyflymderau o 1,000 Mbit yr eiliad.¹⁶ Cynllun Talebau Band Eang yr Alban (SBVS) a darpariaeth fasnachol yw gweddill elfennau rhaglen R100.

⁹ Nodwn fod gwaith i ddilysu rhagfynegiadau 5G newydd Gweithredwyr Rhwydwaith Symudol yn parhau i fynd rhagddo.

¹⁰ <https://www.gov.uk/government/news/government-launches-new-5bn-project-gigabit> Government £5bn Gigabit programme

¹¹ Llywodraeth y DU, [Diweddariad cynnydd Prosiect Gigabit, Mehefin 2023](#), 30 Mehefin 2023.

¹² [Strategaeth Seilwaith Di-wifr y DU - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

¹³ [Diweddariad cynnydd Project Gigabit, Mehefin 2023](#)

¹⁴ [Hwb enfawr gyda band eang i 218,000 o gartrefi a busnesau gwledig yn Norfolk, Suffolk and Hampshire](#)

¹⁵ Digital Scotland, *About R100*, <https://www.scotlandsuperfast.com/r100-programme/about-r100/>

¹⁶ Senedd yr Alban, Cwestiwn Ysgrifenedig – S6W-19328, <https://www.parliament.scot/chamber-and-committees/questions-and-answers/question?ref=S6W-19328>

Mae data Llywodraeth yr Alban a ddarparwyd i Ofcom wedi amlinellu bod dros 27,400 o adeiladau wedi cael eu cysylltu drwy'r contractau R100, ar 31 Gorffennaf 2023. Mae hyn yn cynrychioli tua 24% o oddeutu 114,000 o'r adeiladau y mae rhaglen R100 yn bwriadu eu cysylltu erbyn Mawrth 2028. Ar ben hynny, ar 1 Awst 2023, mae dros 3,300 o adeiladau – gyda 600 arall ar y gweill – wedi defnyddio'r SBVS i wella eu cysylltiad band eang.

Mae Rhaglen Mewnlenni 4G Llywodraeth yr Alban – cynllun gwerth £28.75m sy'n darparu seilwaith a gwasanaethau 4G ar draws hyd at 55 o "fannau di-gyswllt" anghysbell a gwledig yn yr Alban – bron â chael ei chwblhau.¹⁷ Ers mis Gorffennaf 2023, mae 54 o safleoedd mastiau wedi cael eu hadeiladu, ac mae 53 ohonynt eisoes wedi cael eu rhoi ar waith. Mae disgwyl i bob un o'r 55 mast gael eu cwblhau a'u rhoi ar waith erbyn diwedd yr hydref hwn.

Mae cynllun Rhwydwaith Gwledig a Rennir y DU¹⁸ hefyd yn parhau i ddod â darpariaeth symudol i gymunedau gwledig ac ynsoedd ledled yr Alban, gan gynnwys Ae a Loch Head yn Dumfries a Galloway¹⁹, ac Ynys Colonsay yn yr Hebrides Mewnol.²⁰

Cymru: Mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau ei diweddariad cynnydd ar gyfer Ch1 2023 ar contract Cam 2 Cyflymu Cymru gydag Openreach, sy'n cadarnhau bod cyfanswm o 36,869 o adeiladau ychwanegol (i fyny o 35,770 yn Ch4 2022) bellach wedi cael mynediad at y rhwydwaith Darparwr Gwasanaethau Rhynggrwyd (ISP) band eang cysylltiad ffeibr i'r adeilad (FTTP) cyflymder gigabit.

Mae diweddariad cynnydd diweddaraf Openreach ar ei fuddsoddiad o £210m i gyflwyno rhwydwaith Darparwr Gwasanaethau Rhynggrwyd band eang Cysylltiad Ffeibr i'r Adeilad ledled Cymru yn nodi ei fod bellach wedi cynnwys dros 700,000 o adeiladau ers mis Gorffennaf 2023.

Yn y cyfamser, dechreuodd Ogi weithio ar ei gynllun cam cyntaf gwerth £200 miliwn i ddod â chysylltedd ffeibr llawn gwibgyswllt i gymunedau nad oeddent yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol yn draddodiadol ar draws de Cymru ddwy flynedd yn ôl. Roedd y cynllun cam cychwynnol yn ymrwymo i ddod â chyflymderau sy'n gallu delio â gigabits i 150,000 o adeiladau yn ystod y degawd, a dwy flynedd yn ddiweddarach, mae'r cynllun wedi mynd heibio dros draean o'r adeiladau hynny, gyda'r gwaith yn mynd rhagddo mewn naw ardal Awdurdod Lleol.

Gogledd Iwerddon: Mae band eang ffeibr llawn bellach ar gael i 90% o adeiladau ledled Gogledd Iwerddon. Mae hyn o ganlyniad i gyflwyno Cysylltiad Ffeibr i'r Adeilad masnachol yn gynnar ac yn barhaus a chynnydd parhaus cynllun gwella band eang Llywodraeth Gogledd Iwerddon – Prosiect Stratum. Datblygwyd Project Stratum gan Adran yr Economi (DfE) i wella cysylltedd ar gyfer adeiladau nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaethau band eang o 30 Mbps neu fwy, yn bennaf ar draws ardaloedd gwledig Gogledd Iwerddon. Penodwyd Fibrus Networks fel y contractwr ym mis Tachwedd 2020 i ddarparu band eang sy'n gallu delio â gigabits i 76,233 o adeiladau. Ym mis Ionawr 2022, sicrhodd Adran yr Economi gyllid i gynnwys 8,500 o adeiladau ychwanegol yn Mhroject Stratum, unwaith eto yn ardaloedd gwledig Gogledd Iwerddon yn bennaf. O ganlyniad i'r ymyriad cyhoeddus hwn, bydd gan oddeutu 85,000 o adeiladau cymwys fynediad at fand eang sy'n gallu delio â gigabits.

¹⁷ Llywodraeth yr Alban, Rhaglen Mewnlenni 4G yr Alban: Diweddariad Cynnydd, <https://www.gov.scot/publications/scottish-4g-infill-programme-progress-update/#progmastsites>

¹⁸ Rhwydwaith Gwledig a Rennir, <https://srn.org.uk/>

¹⁹ Vodafone News Centre, *Vodafone yn cyflwyno 4G i ddwy gymuned wledig yn Dumfries a Galloway*, 3 Awst 2023, <https://www.vodafone.co.uk/newscentre/press-release/srn-4g-two-rural-dumfries-and-galloway-communities/>

²⁰ Three Media Centre, *Three yn adeiladu canfed safle Rhwydwaith Gwledig a Rennir, gan drawsnewid y darpariaeth ar draws y DU*, 7 Awst 2023, <https://www.threemediacentre.co.uk/content/three-builds-100th-shared-rural-network-site-transforming-coverage-across-the-uk/>

Hyd yma, mae Fibrus Networks wedi cwblhau gwaith i gyflwyno seilwaith i dros 70,000 o adeiladau ac mae'n dal ar y trywydd iawn i gwblhau'r gwaith o'i gyflwyno i bob un o'r 85,000 o adeiladau erbyn mis Mawrth 2025.

Mae Adran yr Economi, mewn partneriaeth â Building Digital UK (BDUK), hefyd wedi dechrau paratoi ar gyfer cyflwyno Prosiect Gigabit yng Ngogledd Iwerddon. Cafodd ymgynghoriad yr Adolygiad o'r Farchnad Agored ar gyfer Prosiect Gigabit gyda darparwyr seilwaith telathrebu ei lansio ar 9 Rhagfyr 2022 a daeth i ben ar 27 Ionawr 2023.

Casglu ac adrodd ar ddata

Rydym yn parhau i gasglu data darpariaeth gan nifer o weithredwyr er mwyn gwella cywirdeb y data rydym yn ei gyhoeddi; cafodd data gan 22 o ddarparwyr Mynediad Di-wifr Sefydlog (Darparwyr Gwasanaeth Rhyngwryd Di-wifr a Gweithredwyr Rhwydwaith Symudol), a 59 o weithredwyr llinellau sefydlog ei ddefnyddio i lunio'r diweddariad hwn. Rydym hefyd yn parhau i gasglu data am ddarpariaeth bob pedwar mis a gwybodaeth am ddefnydd unwaith y flwyddyn.

Dangosfyrddau

Band eang sefydlog

Mynediad at ffeibr llawn	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023	Mai 2023
Y DU	37%	42%	48%	52%
Lloegr	36%	41%	47%	51%
Gogledd Iwerddon	83%	85%	89%	90%
Yr Alban	36%	41%	46%	49%
Cymru	36%	40%	45%	50%

Mynediad at wasanaethau sy'n gallu delio â gigabits	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023	Mai 2023
Y DU	68%	70%	73%	75%
Lloegr	69%	71%	75%	76%
Gogledd Iwerddon	85%	87%	90%	91%
Yr Alban	63%	64%	68%	69%
Cymru	49%	52%	57%	60%

Mynediad at wasanaethau cyflym iawn	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023	Mai 2023
Y DU	96%	97%	97%	97%
Lloegr	97%	97%	97%	97%
Gogledd Iwerddon	93%	94%	96%	97%
Yr Alban	94%	94%	95%	95%
Cymru	95%	95%	96%	96%

Mynediad at wasanaethau sydd o leiaf 10 Mbit yr eiliad	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023	Mai 2023
Y DU	99%	99%	99%	99%
Lloegr	99%	99%	99%	99%
Gogledd Iwerddon	96%	97%	98%	98%
Yr Alban	97%	97%	98%	98%
Cymru	98%	98%	98%	98%

Mynediad Di-wifr Sefydlog

Ers ein diweddariad diwethaf, rydym wedi parhau i gasglu data ar gyfer Darparwyr Gwasanaeth Rhyngwlad Di-wifr (WISP) sy'n darparu gwasanaeth band eang Mynediad Di-wifr Sefydlog. Mae'r canlynol yn dangos adeiladau, yn rhai preswyl a masnachol, lle mae band eang teilwng ar gael drwy Fynediad Di-wifr Sefydlog.

Di-wifr Sefydlog	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023	Mai 2023
Y DU - Gweithredwyr Rhwydwaith Symudol (MNO)	95%	95%	95%	95%
Y DU - Darparwyr Gwasanaeth Rhyngwlad Di-wifr (WISP)	7%	7%	7%	8%

Nodyn 1: Ar gyfer Darparwyr Gwasanaeth Rhyngwlad Di-wifr, 0.3% yw'r gwahaniaeth rhwng mis Ionawr 2023 a mis Mai 2023, ond oherwydd talgrynnu, mae'n uwch yn yr adroddiad.

Darpariaeth 4G

Adeiladau (awyr agored) – ystod darpariaeth ar draws MNO	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023	Ebrill 2023
Y DU	99-c.100%	99-c.100%	99-c.100%	99-c.100%
Lloegr	99-c.100%	99-c.100%	99-c.100%	99-c.100%
Gogledd Iwerddon	97-99%	98-99%	97-99%	98-99%
Yr Alban	97-99%	97-99%	97-99%	98-c.100%
Cymru	96-99%	96-99%	96-99%	96-99%

Ardal ddaeryddol – ystod darpariaeth ar draws MNO	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023	Ebrill 2023
Y DU	79-87%	80-87%	80-87%	80-87%
Lloegr	92-94%	92-94%	92-94%	92-95%
Gogledd Iwerddon	88-92%	88-92%	88-92%	88-92%
Yr Alban	57-74%	57-75%	57-75%	58-76%
Cymru	72-85%	73-85%	74-85%	74-85%

Ardal ddaeryddol lle nad oes darpariaeth gan unrhyw weithredwr (mannau di-gyswilt)	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023	Ebrill 2023
Y DU	8%	8%	8%	7%
Lloegr	2%	2%	2%	2%
Gogledd Iwerddon	3%	3%	3%	3%
Yr Alban	17%	17%	17%	16%
Cymru	10%	10%	9%	9%

Darpariaeth ar bob ffordd (mewn cerbyd) – ystod darpariaeth ar draws MNO	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023	Ebrill 2023
Y DU	78-84%	79-84%	80-85%	80-85%
Lloegr	84-88%	85-88%	85-89%	85-89%
Gogledd Iwerddon	69-80%	69-79%	69-80%	70-80%
Yr Alban	65-79%	65-79%	66-79%	67-81%
Cymru	70-79%	70-80%	71-80%	72-80%

Pob ffordd (mewn cerbyd) lle nad oes darpariaeth gan unrhyw weithredwr (mannau digyswllt)	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023	Ebrill 2023
Y DU	4%	4%	4%	4%
Lloegr	2%	2%	2%	2%
Gogledd Iwerddon	6%	6%	6%	6%
Yr Alban	7%	7%	7%	6%
Cymru	9%	9%	9%	9%

Cymhwysedd ar gyfer USO

Canran y cartrefi a'r busnesau nad ydynt yn gallu cael mynediad at wasanaeth band eang digonol, sef cyflymder lawrlwytho o 10 Mbit yr eiliad o leiaf a chyflymder uwchlwytho o 1 Mbit yr eiliad o leiaf.

Methu cael gwasanaethau 10 Mbit yr eiliad lawrlwytho ac 1 Mbit yr eiliad uwchlwytho (yn gymwys o bosib am USO)	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023	Mai 2023
Y DU	0.3%	0.3%	0.2%	0.2%
Lloegr	0.2%	0.1%	0.1%	0.1%
Gogledd Iwerddon	1.2%	1.0%	0.6%	0.5%
Yr Alban	0.8%	0.7%	0.7%	0.6%
Cymru	0.6%	0.6%	0.6%	0.6%

Nodyn 2: Dim ond os yw'r canlynol yn wir yr ydym yn ystyried bod gan eiddo "ddarpariaeth ffeibr llawn": 1. bod ffeibr ar gael yn agos at yr eiddo, fel mai dim ond cysylltiad ffeibr pwrpasol i'r eiddo sydd ei angen i ddarparu cysylltedd ffeibr (o'r dechrau i'r diwedd), a 2.mai dim ond tâl cysylltu cyhoeddedig y cytunwyd arno ymlaen llaw y byddai disgwyl i'r defnyddiwr ei dalu, pe bai tâl o'r fath yn cael ei godi.

Nodyn 3: Mae'n bosib nad yw hyn yn cynnwys gwasanaethau band eang sydd ar gael gan rai darparwyr llai.

Nodyn 4: Mae'r ffigurau am y rhai a allai fod yn gymwys am USO yn cynnwys pob eiddo (yn rhai preswyl a masnachol). Mae'r ffigurau am gyflymderau eraill yn cyfeirio at eiddo preswyl yn unig.

Darpariaeth gwasanaethau llais a thestun

Eiddo (awyr agored) – ystod darpariaeth ar draws MNO	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023	Ebrill 2023
Y DU	99-c.100%	99-c.100%	c.100%	c.100%
Lloegr	c.100%	c.100%	c.100%	c.100%
Gogledd Iwerddon	98-c.100%	98-c.100%	98-c.100%	98-c.100%
Yr Alban	99-c.100%	99-c.100%	99-c.100%	99-c.100%
Cymru	99%	99-c.100%	99%	99%

Ardal ddaearyddol – ystod darpariaeth ar draws MNO	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023	Ebrill 2023
Y DU	85-92%	85-93%	85-93%	85-93%
Lloegr	95-98%	95-99%	95-98%	95-98%
Gogledd Iwerddon	89-98%	89-98%	89-98%	89-98%
Yr Alban	68-82%	68-84%	68-83%	68-84%
Cymru	86-91%	86-94%	86-92%	86-92%

Ardal ddaearyddol lle nad oes cael darpariaeth gan unrhyw weithredwr (mannau di-gyswllt)	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023	Ebrill 2023
Y DU	4%	4%	4%	4%
Lloegr	1%	1%	1%	1%
Gogledd Iwerddon	1%	1%	1%	1%
Yr Alban	11%	10%	10%	10%
Cymru	5%	4%	4%	4%

Darpariaeth ar bob ffordd (mewn cerbyd) – ystod darpariaeth ar draws MNO	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023	Ebrill 2023
Y DU	87-95%	87-96%	87-95%	87-95%
Lloegr	90-98%	90-99%	91-98%	91-98%
Gogledd Iwerddon	73-94%	73-96%	73-95%	74-95%
Yr Alban	77-88%	77-90%	78-89%	78-90%
Cymru	82-88%	83-91%	83-89%	83-89%

Pob ffordd (mewn cerbyd) lle nad oes darpariaeth gan unrhyw weithredwr (mannau di-gyswllt)	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023	Ebrill 2023
Y DU	2%	1%	2%	2%
Lloegr	1%	c.0%	1%	1%
Gogledd Iwerddon	3%	2%	3%	3%
Yr Alban	3%	3%	3%	3%
Cymru	5%	4%	5%	5%

Darpariaeth 5G

Adeiladau (awyr agored) sy'n cael darpariaeth gan o leiaf un gweithredwr	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023	Ebrill 2023
Y DU	54-69%	67-78%	73-82%	76-85%
Lloegr	56-72%	70-81%	76-85%	79-88%
Gogledd Iwerddon	26-34%	37-44%	48-55%	54-60%
Yr Alban	48-61%	57-68%	62-73%	66-76%
Cymru	35-48%	46-58%	49-61%	53-65%

Adeiladau (awyr agored) sy'n cael darpariaeth gan bob gweithredwr	Mai 2022	Medi 2022	Ionawr 2023	Ebrill 2023
Y DU	5-13%	11-20%	12-22%	12-22%
Lloegr	5-14%	12-22%	13-23%	14-24%
Gogledd Iwerddon	2-7%	4-8%	5-12%	5-12%
Yr Alban	3-10%	6-15%	7-17%	8-19%
Cymru	2-6%	4-7%	5-8%	4-8%

Nodyn 5: Y trothwyon ar gyfer y Gwasanaeth 5G yw -110 dBm lle mae gennym hyder uchel yn y ddarpariaeth a -100 dBm lle mae gennym hyder uchel iawn yn y ddarpariaeth. Mae gwaith dilysu ar ragfynegiadau 5G newydd yn parhau i fynd rhagddo.

Nodyn 6: Mae'r holl ddarpariaeth symudol a adroddir yn seiliedig ar ragfynegiadau, y mae'r gweithredwyr yn parhau i'w diweddarau. O ganlyniad, gall y ddarpariaeth gwasanaethau symudol a adroddir amrywio oherwydd y modelau a ddefnyddir neu'r wybodaeth sylfaenol am ddaearyddiaeth a/neu adeiladau. Mewn rhai achosion, o ganlyniad i adrodd ar ddarpariaeth ar ganrannau cyfan, gall newidiadau bach arwain at 1 pwynt canran o newidiadau yn y ddarpariaeth a adroddir. Mae Methodoleg Cysylltu'r Gwledydd 2022 yn rhoi rhagor o fanylion am sut mae darpariaeth symudol yn cael ei chyfrifo.

Nodyn 7: Mae rhai o ffigurau mis Mai 2022, yn enwedig y rheini ar gyfer adeiladau sy'n cael eu gwasanaethu gan o leiaf un gweithredwr, yn wahanol i'r rheini a adroddwyd yn ein diweddariad Gwanwyn 2023. Mae hyn oherwydd ein bod wedi cywiro'r cyfrifiad darpariaeth ar ôl cyhoeddi diweddariad Hydref 2022, nad oedd wedi'i adlewyrchu'n gywir yn adroddiad Gwanwyn 2023.